

CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG

DYDD IAU, 23 MEHEFIN 2022

Yn Cynghorydd (Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Cowan, K Jones, John, Simmonds, Andrews,
Blundell, Harris a/ac Jones

- 1 : ETHOL CADEIRYDD CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG AR
GYFER Y FLWYDDYN DDINESIG 2022/23.

Penodwyd y Cynghorydd Wendy Lewis (RhCT) yn Gadeirydd y Pwyllgor. Cafodd ei henwebu gan y Cynghorydd G Jones ac eiliwyd hi gan y Cynghorydd B Harris.

- 2 : ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER CYDBWYLLGOR ARCHIFAU
MORGANNWG AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2022/23.

Penodwyd y Cynghorydd Jayne Cowan (Caerdydd) yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor. Cafodd ei henwebu gan y Cynghorydd K Jones ac eiliwyd hi gan y Cynghorydd G John.

- 3 : NODI'R AELODAETH CYDBWYLLGOR ARCHIFAU MORGANNWG AR
GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2022/23.

Nodwyd.

- 4 : NODI'R CYDGYTUNDEB/CYLCH GORCHWYL I GYDBWYLLGOR
ARCHIFAU MORGANNWG AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2022/23

Nodwyd.

- 5 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan y Cynghorwyr Robson, Mackie, M.Lewis, W.Lewis, Colbran, Birch a Stephens.

- 6 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim wedi'u derbyn.

- 7 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2022 yn gofnod cywir.

8 : ADRODDIAD ARCHIFYDD MORGANNWG AM Y CYFNOD RHWNG 1
CHWEFROR A 30 EBRILL 2022.

Rhodddwyd diweddariad cynhwysfawr i'r Aelodau ar waith y gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 1 Chwefror 2022 – 30 Ebrill 2022 i gyd wedi'u categorio yn erbyn canlyniadau'r Cynllun Blynyddol.

Yn gryno, eglurodd yr Archifydd fod y chwarter diwethaf wedi bod yn un arall prysur i Archifau Morgannwg. Braff oedd cael croesawu'r gwirfoddolwyr yn ôl i'r adeilad wrth i'r cyfyngiadau lacio.

Roedd mwy a mwy o ddigideiddio casgliadau yn cael ei gwblhau, mewn ymateb i'r cynnydd yn y galw gan ddefnyddwyr o bell. Tynnodd hyn sylw at y newid yn y defnydd y mae'r gwasanaeth wedi'i weld ers dechrau'r pandemig yn 2020. Disgwylir y bydd y galw o bell yn parhau i dyfu ac y bydd gwasanaethau digidol yn parhau i fod yn bwysicach nag erioed, gan ddangos mai'r ffocws y mae'r gwasanaeth wedi'i roi ar ddatblygu'r gallu hwnnw ar gyfer y gwasanaeth Archif yw'r cyfeiriad strategol cywir.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau ar yr adroddiad.

Gofynnodd yr aelodau a oedd y sgysiau/arddangos ar-lein wedi cael gwell defnydd na phan gawson nhw eu cyflwyno'n bersonol, ac a oedd hi'n well cynnig y ddau. Esboniodd yr Archifydd eu bod yn cael mwy o bresenoldeb yn y trafodaethau rhithwir. Roedd pobl yn gweld eu bod nhw'n fwy hyblyg, gyda llai o ymrwymiad, dim teithio ac ati. O'i gymharu mae'r sesiynau rhithwir yn denu llawer mwy o bobl na sesiynau wyneb yn wyneb. Rhodddwyd enghraifft o sesiwn y llynedd lle mynychodd dros 100 o bobl, ni fyddai wedi bod yn bosibl darparu ar gyfer y nifer hwnnw o bobl yn bersonol yn yr adeilad. Wrth symud ymlaen, y bwriad oedd parhau gyda sesiynau rhithwir ond cynnig un neu ddau y flwyddyn yn yr adeilad.

Fe wnaeth yr aelodau archwilio'r ardal hon ymhellach gan ofyn a oedd posibilrwydd o sesiynau hybrid. Dywedodd yr Archifydd fod hyn yn bendant rhywbeth yr oedd y gwasanaeth am ei archwilio yn y dyfodol, ond ar hyn o bryd roeddent yn dal i geisio annog pellter cymdeithasol yn yr adeilad felly nid oedd yn ymarferol ar hyn o bryd.

Nododd yr aelodau faint o ymholiadau o bell a'u bod i gyd wedi'u cyflwyno yn yr amserlen darged. Dymunai'r aelodau ddiolch i'r tîm am eu holl waith caled ar hyn.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys yr adroddiad.

9 : SEFYLLFA ALLDRO TERFYNOL A DATGANIAD DRAFFT ARCHWILIO
CYMRU AR GYFER 2021/2022.

Darparwyd amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad i'r aelodau a'i holl bennawd allweddol, ac ar ôl hynny gwahoddodd y cadeirydd gwestiynau a sylwadau ar yr adroddiad.

Roedd yr aelodau'n awyddus i gael mwy o wybodaeth am yr Adran Credydwyr a Dyledwyr cyn i'r ffurflen gael ei llofnodi gan y Cadeirydd/Is-Gadeirydd. Cytunodd swyddogion i anfon y wybodaeth hon at holl aelodau'r Pwyllgor.

Ym marn yr aelodau roedd Gwasanaeth Archifau Morgannwg yn cael ei ystyried yn esiampl o ragoriaeth ar draws yr Awdurdodau Lleol ac yn dymuno canmol staff am yr adroddiadau cadarnhaol.

PENDERFYNWYD:

1. Nodi'r sefyllfa alldro ar gyfer 2021/22.
2. Nodi a llofnodi Datganiad Blynyddol Archwilio Cymru drafft a atodwyd ar gyfer 202/22.

10 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - I'W GADARNHAU

Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm